08.12.2022

Manon Wyn James
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880418 / 07887 455572

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Cystadleuaeth Carol yr Ŵyl yn ôl

Mae Carol yr Ŵyl yn ôl am y tro cyntaf ers 2019, a bydd y ciwt ffactor yn amlwg wrth i blant ysgolion cynradd ganu carolau gwreiddiol gan obeithio ennill teitl - Carol yr Ŵyl 2022.

Bydd y gantores Bronwen Lewis, yn beirniadu am y tro cyntaf eleni ac yn ein tywys ar wibdaith Nadoligaidd ar draws Cymru. Bydd hi hefyd yn cael cwmni un arall o feirniaid Carol yr Ŵyl sef y cerddor Robat Arwyn, wrth i ni glywed ymdrechion 11 o ysgolion cynradd sydd wedi cyrraedd y rhestr fer eleni. O stori'r geni, i'r rhyfel yn Wcráin i anrhegion Sion Corn mae'r amrywiaeth mor eang â phob hosan Nadolig.

Mae'r berfformwraig Bronwen Lewis wrth ei bodd i fod ar y panel beirniadu am y tro cyntaf, a chael cyflwyno'r caneuon gwreiddiol, "Mae wedi bod yn bleser gwrando ar y cyfan, a chyd-feirniadu gyda Robat Arwyn. I fi'n rhyfeddu ar safon y cystadlu, fel rhywun sy'n dwlu ar gan dda, cofiadwy, ma' nifer o'r carolau yma wedi aros yn fy mhen i."

Ma' Robat Arwyn wedi beirniadu yn y gorffennol "Ma' hi'n gystadleuaeth unigryw ac yn hoelio sylw pawb ar neges y Nadolig - y diniweidrwydd, y gobaith, y cariad a'r llawenydd - ac mae hynny'n berthnasol i bob un ohona ni, beth bynnag ein crefydd, beth bynnag ein cred. Ac mae rhannu hynny ar gân yn cydio'n y galon yn syth."

"Ma' hi'n fraint beirniadu'r gystadleuaeth. Cael clywed llwyth o garolau gwreiddiol am y tro cynta', yn cael eu canu gan leisiau plant. Be well! Mwynhewch llond sach o garolau arbennig o dda, a nifer o rai hollol ardderchog. Alawon bachog, geiriau cofiadwy, canu gorfoleddus, a sawl un wedi 'nghyffwrdd i at ddagrau. Arbennig iawn!

Mae'r lleoliadau yn mynd a ni o sgubor anifeiliaid a chwarel Llechwedd i gerddi Castell Caerdydd ac eglwys sydd bellach yng nghanolfan i ffoaduriaid o'r Wcráin. Dewch i gael ychydig o swyn y Nadolig yng nghwmni rhai o gantorion bach Cymru.

**Carol yr Ŵyl**
**Nos Wener 23 Rhagfyr 8.25, S4C**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Tinopolis ar gyfer S4C**

Manon Wyn James
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880418 / 07887 455572

**Erthygl i'r Wasg Press Release**

# Carol yr Ŵyl competition is back

Carol yr Ŵyl is back for the first time since 2019, and the cute factor will be off the scale with primary school children singing original carols and hoping to win the title - Carol yr Ŵyl 2022.

The singer Bronwen Lewis, will be judging for the first time this year and will guide us on a festive tour across Wales. She will also be joined by another of Carol yr Ŵyl's judges, the musician Robat Arwyn, as we hear the efforts of 11 primary schools that have reached the shortlist this year. From the nativity story, to the war in Ukraine to Santa's gifts there will be plenty of variety.

Performer Bronwen Lewis is delighted to be on the judging panel for the first time, and to be enjoy new and original songs: "It's been a pleasure listening to all of it, and co-judging with Robat Arwyn. I am amazed at the standard of the competition, as someone who loves a good, memorable song, many of these carols have been stuck in my head!"

Robat Arwyn has judged in the past. He said: "It's a unique competition and focuses everyone's attention on the message of Christmas - the innocence, the hope, the love and the joy - and that applies to all of us, whatever our religion, whatever our beliefs.

"It is a privilege to judge the competition, and it's great to hear lots of original carols for the first time, sung by children. What better! Catchy tunes, memorable words, beautiful singing, and we've been moved to tears. It's all very special!"

The locations take us from the Llechwedd quarry to the gardens of Cardiff Castle and a church which is now a centre for refugees from Ukraine. Come and experience some Christmas magic in the company of some of Wales's young singers.

**Carol yr Ŵyl**
**Friday 23 December 8.25, S4C**
**English Subtitles**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Tinopolis production for S4C**